# Deddf Cyllido Gofal Plant (Cymru) 2019

**2019 dccc 1**

*Darpariaeth ar gyfer adolygiadau ac apelau*

PROSPECTIVE

**6 Adolygu penderfyniadau ac apelau i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf**

(1) Caiff y rheoliadau wneud darpariaeth ar gyfer adolygiadau o benderfyniadau o ran cymhwystra i gael cyllid o dan adran 1, neu ar gyfer apelau i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf yn erbyn y penderfyniadau hynny.

(2) Pan fo darpariaeth wedi ei gwneud yn rhinwedd adran 3 ar gyfer gosod cosbau ariannol, rhaid i'r rheoliadau gynnwys darpariaeth sy'n galluogi person y mae cosb ariannol wedi ei gosod arno—

(a) i'w gwneud yn ofynnol adolygu gosod y gosb neu ei swm;

(b) i apelio i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf yn erbyn gosod y gosb neu ei swm.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 6 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 13(2)**

**Statws**
Mae’r fersiwn hon o'r ddarpariaeth hon yn rhagolygol.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Cyllido Gofal Plant (Cymru) 2019, Adran 6.